

TGAU



TGAU CBAC DAEARYDDIAETH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2016
l'w ddyfarnu o 2018

Fersiwn 2 Mai 2019

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	32



TGAU DAEARYDDIAETH CBAC

I'w addysgu o 2016 I'w ddyfarnu o 2018

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2016.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesu	2
1. Rhagarweiniad	3
1.1 Nodau ac amcanion	3
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant	4
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg	5
1.4 Bagloriaeth Cymru	5
1.5 Persbectif Cymreig	5
2. Cynnwys y pwnc	6
2.1 Uned 1	7
2.2 Uned 2	14
2.3 Uned 3	21
3. Asesu	28
3.1 Amcanion asesu a phwysoli	28
3.2 Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad	29
4. Gwybodaeth dechnegol	32
4.1 Cofrestru	32
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	32
Atodiad A Defnyddio mathemateg ac ystadegau mewn daearyddiaeth	33
Atodiad B Diffinio gwledydd global, gwledydd newydd eu diwydianeiddio (NIC) a gwledydd incwm isel (LIC) addas	35
Atodiad C Rhestr o wledydd addas yn Ne Asia ac Affrica is-Sahara	36

TGAU DAEARYDDIAETH (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESU

Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster **83 marc**

Adran A: Themâu Craidd

Dau gwestiwn ymateb i ddata strwythuredig yn asesu Thema Graidd 1 (Tirweddau a Phrosesau Ffisegol) a Thema Graidd 2 (Cysylltiadau Gwledig-trefol).

Adran B: Opsiynau

Un cwestiwn strwythuredig (o ddewis o ddau) yn asesu naill ai Thema 3 (Tirweddau a Pheryglon Tectonig) **neu** Thema 4 (Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth). Mae'r themâu hyn yn darparu mwy o **ehangder** i'r astudiaeth ychwanegol ar gyfer y cynnwys sy'n cael ei asesu yn y themâu craidd. Cwestiynau ymateb i ddata yw'r dull asesu. Bydd angen ymatebion estynedig ar gyfer rhai o'r cwestiynau.

Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygiad
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster **83 marc**

Adran A: Themâu Craidd

Dau gwestiwn ymateb i ddata strwythuredig yn asesu Thema Graidd 5 (Tywydd, Hinsawdd ac Ecosystemau) a Thema Graidd 6 (Materion Datblygiad ac Adnoddau).

Adran B: Opsiynau

Un cwestiwn strwythuredig (o ddewis o ddau) yn asesu naill ai Thema 7 (Materion Datblygiad Cymdeithasol) **neu** Thema 8 (Sialensiau Amgylcheddol). Mae'r themâu hyn yn darparu mwy o **fanylder** i'r astudiaeth ychwanegol ar gyfer y cynnwys sy'n cael ei asesu yn y themâu craidd. Cwestiynau ymateb i ddata yw'r dull asesu. Bydd angen ymatebion estynedig ar gyfer rhai o'r cwestiynau.

Uned 3: Ymholiad Gwaith Maes
Asesiadau di-arholiad 2 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster **44 marc**

Yn Uned 3 mae gofyn i'r dysgwr ddarparu adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys tystiolaeth o'i ddealltwriaeth o'r broses ymholi a'i allu annibynnol i brosesu/cyflwyno data a chwblhau gwaith ysgrifennu estynedig. Rhaid ysgrifennu'r adroddiad mewn ymateb i gwestiynau penodol a osodir gan CBAC.

Bydd y cymhwyster llinol hwn ar gael ym mis Mai/Mehefin bob blwyddyn. Caiff ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2018.

Rhif Cymhwyster ar restr [The Register](#): 601/7663/5

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW: C00/0779/2

TGAU DAEARYDDIAETH

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Mae TGAU Daearyddiaeth CBAC yn mabwysiadu dull ymholi wrth astudio gwybodaeth, materion a chysyniadau daearyddol. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai addysg ddaearyddol alluogi dysgwyr i ddod yn feddylwyr beirniadol a myfyrgar drwy eu hannog i gymryd rhan weithredol yn y broses ymholi. Caiff y cynnwys ei drefnu yn seiliedig ar gwestiynau allweddol a dylid annog dysgwyr i ofyn eu cwestiynau daearyddol eu hunain.

Mae gwaith maes yn agwedd hanfodol ar addysg ddaearyddol ac ar y cymhwyster hwn. Mae wrth wraidd y fanyleb hon a dylai athrawon gynnwys gwaith maes fel rhan annatod o unrhyw raglen astudio a lunnir ganddynt. Dylai dysgwyr gyfuno ac ehangu eu dealltwriaeth o gysyniadau daearyddol a ddysgir yn yr ystafell ddsbarth drwy ymwneud ag ymholiadau a gynhelir y tu allan i'r ystafell ddsbarth a thir yr ysgol. At hynny, dylid eu herio i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy waith maes penodol o fewn cyd-destunau lleol at gyd-destun ehangach daearyddiaeth y DU. Drwy ofyn cwestiynau fel rhan o ymholiadau, bydd dysgwyr yn meithrin y gallu i gysylltu'r cysyniadau hyn â sefyllfaoedd go iawn er mwyn gwneud synnwyr o batrymau gofodol ehangach.

Dylai'r dull ymholi sy'n weithredol yn TGAU Daearyddiaeth CBAC, yn yr ystafell ddsbarth ac o fewn cyd-destun gwaith maes, alluogi dysgwyr i ddatblygu y gallu i feddwl 'fel daearyddwr' os rhoddir cyfleoedd iddynt wneud y canlynol:

- meddwl yn greadigol, er enghraifft, drwy holi cwestiynau sy'n ymwneud â phrosesau a chysyniadau daearyddol sy'n cynnwys cwestiynau am batrwm gofodol a newid daearyddol
- meddwl yn wyddonol drwy gasglu a chofnodi tystiolaeth briodol o amrywiaeth o ffynonellau, gwaith maes yn eu plith, cyn cynnal asesiad beirniadol o ddilysrwydd y dystiolaeth hon a chyfosod eu canfyddiadau er mwyn dod i gasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â nod cychwynnol eu hymholiad
- meddwl yn annibynnol drwy gymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a dulliau gweithredu daearyddol yn briodol ac yn greadigol at gyd-destunau go iawn. Wrth wneud hynny, dylent werthfawrogi y gall daearyddiaeth fod yn 'flêr' h.y. nad yw daearyddiaeth go iawn bob amser yn cyfateb i ganlyniadau nodweddiadol neu ganlyniadau a ragfynegyd

Mae TGAU Daearyddiaeth CBAC yn datblygu ac yn ehangu gwybodaeth dysgwyr am leoliadau, lleoedd, amgylcheddau a phrosesau, ar amrywiaeth o wahanol raddfeydd. Dylai dysgwyr adeiladu ar y wybodaeth leoliadol a gaffaelwyd ganddynt yn ystod cyfnod allweddol 3. Dylent feddu ar wybodaeth leoliadol o Gymru, y DU, y cyfandiroedd a'r cefnforoedd yn ogystal â gwybodaeth leoliadol a chyd-destunol am o leiaf un wlad incwm isel (LIC) **ac** un wlad newydd ei diwydianeiddio (NIC). Mae rhestr o wledydd incwm isel a gwledydd newydd eu diwydianeiddio wedi'i rhoi yn Atodiad B ar dudalen 35 o'r fanyleb. Yn ogystal, dylai dysgwyr sy'n astudio Thema 7 feddu ar wybodaeth leoliadol a chyd-destunol am o leiaf un wlad yn Ne Asia **neu** Affrica is-Sahara. Mae'r rhestr o'r gwledydd hyn wedi'i rhoi yn Atodiad C ar dudalen 35 o'r fanyleb.

Dylai dysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o nifer o gysyniadau daearyddol cyffredinol allweddol fel achos ac effaith, cylchredau a llifoedd, dyfodol daearyddol, rhyng-gysylltedd a chymunedau cynaliadwy. Mae'r cysyniadau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer pob un o syniadau allweddol TGAU Daearyddiaeth CBAC. Dylai dysgwyr ddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau hyn ar amrywiaeth o raddfeydd ac mewn amrywiaeth o leoedd a chyd-destunau penodedig. Mae TGAU Daearyddiaeth CBAC yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddeall y cysyniadau hyn ac, felly, mwy am y byd, y sialensiau y mae'n eu hwynebu a'u lle o'i fewn. Bydd astudio'r cwrs TGAU hwn yn gwella eu dealltwriaeth o brosesau daearyddol, yn tynnu sylw at effaith newid ac at achosion cymhleth o ryngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd, ac yn amlygu'r cysylltiadau deinamig a'r cydberthnasoedd rhwng lleoedd ac amgylcheddau ar wahanol raddfeydd.

Mae sgiliau mathemategol, cartograffig, mapio ac ystadegol wedi'u cynnwys fel rhan annatod o'r cymhwyster er mwyn datblygu cymhwysedd dysgwyr wrth ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau a dulliau ymchwilio daearyddol. Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr gynrychioli data daearyddol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau cartograffigol a graffigol. Dylid hefyd rhoi'r cyfle iddynt ddadansoddi amrywiaeth o fapiau, graffiau, ffotograffau a setiau data wrth archwilio cynnwys **pob** uned. Amlinellir amrywiaeth a graddau'r technegau mathemategol ac ystadegol sy'n ofynnol gan TGAU Daearyddiaeth CBAC yn Atodiad A ar dudalennau 33-34 o'r fanyleb. Caiff y sgiliau hyn eu hasesu ar draws **pob un o'r tair** uned.

Drwy integreiddio gwybodaeth a dealltwriaeth â sgiliau daearyddol priodol fel rhan o'r cymhwyster hwn, gall pobl ifanc ddod yn ddinasyddion ymholgar, meddylgar sy'n ymwybodol o'r byd a'r amgylchedd.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau dilyniant fel a ganlyn:

- ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o gyd-destunau lleoliadol, gan gynnwys gwell ymwybyddiaeth o bwysigrwydd graddfa a'r cysyniad o fyd-eang
- rhoi mwy o bwyslais ar astudiaethau proses sy'n arwain at ddealltwriaeth o newid
- mwy o bwyslais ar natur aml-amrywiol cydberthnasau a rhyngweithio 'dynol-ffisegol'
- ffocws cryfach ar lunio cyffredinoliadau a/neu haniaethiadau, gan gynnwys rhywfaint o ymwybyddiaeth o safbwyntiau damcaniaethol ac o fframweithiau cysyniadol y pwnc
- cynyddu cyfranogiad dysgwyr yn y gwaith o gynllunio a chynnal ymchwiliad annibynnol lle mae sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cymhwyso at ymchwilio i gwestiynau daearyddol
- gwella cymhwysedd mewn amrywiaeth o sgiliau deallusol a chyfathrebu, gan gynnwys llunio dadleuon, sy'n cynnwys elfennau o gyfosod a gwerthuso deunydd.

Mae'r fanyleb hon yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Daearyddiaeth naill ai ar gyfer UG neu safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynus, boddhaol ac yn werth chweil i ddysgwyr nad ydynt yn symud ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr astudio'r fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesu.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesedd
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd. Lle mae'n hanfodol astudio safbwynt Cymru, dynodir hynny ym manylion yr astudiaeth, er enghraifft, yn Syniadau Allweddol 1.1 a 2.1.

2 CYNWYS Y PWNC

Trefnir cynnwys TGAU Daearyddiaeth CBAC yn themâu craidd ac opsiynau. O fewn pob thema, anogir dysgwyr i fabwysiadu **agwedd ymholgar** at amrywiaeth o gysyniadau daearyddol cyffredinol. Ceir crynodeb o gynnwys pob uned isod.

Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol		
Themâu craidd	1 Tirweddau a Phrosesau Ffisegol 2 Cysylltiadau gwledig-trefol	Dylai dysgwyr astudio'r ddwy thema graidd. Argymhellir y dylai dysgwyr dreulio o leiaf 20 o oriau dysgu dan arweiniad ar bob thema graidd.
Opsiynau	3 Tirweddau a Pheryglon Tectonig 4 Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth	Dylai dysgwyr astudio un o'r themâu opsiwn hyn sy'n ychwanegu ehangder gwybodaeth at y thema graidd. Argymhellir y dylai dysgwyr dreulio o leiaf 12 o oriau dysgu dan arweiniad ar y thema opsiwn o'u dewis.
Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygiad		
Themâu craidd	5 Tywydd, Hinsawdd ac Ecosystemau 6 Materion Datblygiad ac Adnoddau	Dylai dysgwyr astudio'r ddwy thema graidd. Argymhellir y dylai dysgwyr dreulio o leiaf 20 o oriau dysgu dan arweiniad ar bob thema graidd.
Opsiynau	7 Materion Datblygiad Cymdeithasol 8 Sialensiau Amgylcheddol	Dylai dysgwyr astudio un o'r themâu opsiwn hyn sy'n ychwanegu dyfnder gwybodaeth at y thema graidd. Argymhellir y dylai dysgwyr dreulio o leiaf 12 o oriau dysgu dan arweiniad ar y thema opsiwn o'u dewis.
Uned 3: Ymholiadau Gwaith Maes		
<p>Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymholi daearyddol drwy waith maes. Disgwylir iddynt ymgymryd â dau ymholiad gwaith maes, gyda'r ddau mewn amgylchedd cyferbyniol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewn un amgylchedd, bydd y gwaith maes yn canolbwyntio ar fethodoleg* • Dylid cynnal yr ail brofiad gwaith maes mewn amgylchedd cyferbyniol. Dylai ymholiad gwaith maes ganolbwyntio ar fframweithiau cysyniadol daearyddiaeth* <p>* Ym mhob cylch, bydd CBAC yn dewis y fethodoleg a'r fframwaith cysyniadol o'r rheini a restrir yn Nhabl A (tudalen 25) a Thabl B (tudalennau 26-27).</p>		

2.1 Uned 1

Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
40% o'r cymhwyster
80 marc (ynghyd â 3 marc am gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg)

Mae Uned 1 yn cynnwys dwy thema graidd a dau opsiwn. Dylai dysgwyr astudio'r **ddwy** thema graidd ac **un** o'r opsiynau.

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys a nodir yn y syniadau allweddol, y cwestiynau ymholi a manylion yr astudiaeth ar dudalennau 7-12. *Nodir yr enghreifftiau (mewn llythrennau italig) er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac awgrymu amrediad, ac nid ydynt yn orfodol.*

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Nodir dyfnder yr ymdriniaeth â'r sgiliau hyn yn Atodiad A ar dudalennau 31-32 o'r fanyleb.

Adran A: Themâu Craidd

Dylai dysgwyr astudio'r **ddwy** thema hyn.

Thema Graidd 1: TIRWEDDAU A PHROSES AU FFISEGOL

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o achos ac effaith; cylchredau a llifoedd; dyfodol daearyddol; rhyng-gysylltedd (rhwng prosesau dynol a ffisegol); lle/natur unigryw; proses a newid; a graddfa wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 1.1: Tirweddau nodedig yng Nghymru

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
1.1.1 Beth sy'n gwneud tirweddau yng Nghymru yn nodedig?	Trosolwg o ddsbarthiad y prif fathau o dirwedd yng Nghymru (<i>er enghraifft, rhanbarthau uwchdir ac iseldir</i>) a lleoliad arweddion tirwedd pwysig. Ffactorau sy'n gwneud tirweddau yng Nghymru yn nodedig (<i>er enghraifft, y defnydd o dir, diwylliant, daeareg a llystyfiant</i>). Astudiaeth o un dirwedd nodedig, benodol yng Nghymru (<i>er enghraifft, tirwedd arfordirol Morgannwg, neu uwchdiroedd rhewlifol Eryri</i>) a'i harweddion dynol a ffisegol ar raddfa lai.
1.1.2 Sut mae gweithgaredd dynol yn effeithio ar dirweddau ffisegol yng Nghymru?	Y sialensiau amgylcheddol sy'n cael eu creu gan weithgarwch dynol mewn un dirwedd nodedig i gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol pwysau gan ymwelwyr ac economïau a chymdeithasau gwledig newidiol. Cysyniadau safleoedd pot mêl a'u gallu i ymdopi.
1.1.3 Sut mae'n bosibl rheoli tirweddau yng Nghymru?	Strategaethau i reoli'r dirwedd, i gynnwys rheoli ymwelwyr, ac i adfer tirweddau neu amgylcheddau dan bwysau o ganlyniad i ddifrod (<i>er enghraifft, cynnal a chadw llwybrau troed</i>).

Syniad Allweddol 1.2: Proses a newidiadau tirffurf mewn dwy dirwedd wahanol a nodedig yng Nghymru neu'r DU ehangach

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
<p>1.2.1 Sut mae prosesau yn cydweithio i greu arweddion tirffurfiau ar wahanol raddfeydd mewn tirweddau afonol ac arfordirol yng Nghymru?</p> <p>1.2.2 Pa ffactorau sy'n effeithio ar gyfraddau newid tirffurf mewn tirweddau afonol ac arfordirol yn y DU?</p>	<p>Sut a pham mae tirffurfiau afonydd (o wahanol raddfeydd) yn newid dros amser. Prosesau erydu (sgrafellu, athreuliad, gweithred hydrologig a hydoddiant), cludo a dyddodi afonol sy'n arwain at ddatblygu tirffurfiau i gynnwys dyffrynnoedd ffurf-v, rhaeadrau, ceunentydd, gorlifdiroedd ac ystumiau a'u harweddion cysylltiedig llai o faint (yn eu plith, llethrau slip mewn ystumiau afonol a phlymbyllau mewn rhaeadrau).</p> <p>Sut a pham mae tirffurfiau arfordirol (o wahanol raddfeydd) yn newid dros amser. Prosesau llethrol ac arfordirol sy'n arwain at achosion o glogwyni yn encilio yn eu plith hindreuliad, cwmp creigiau a thirlithriadau.</p> <p>Cysylltiadau rhwng cyflenwi, cludo (gan gynnwys drifft y glannau) a dyddodi gwaddodion sydd wedi greu tirffurfiau nodedig mewn un amgylchedd arfordirol penodol yng Nghymru. Datblygiad arweddion arfordirol nodedig i gynnwys pentiroedd/baeau, clogwyni, llyfndiroedd tonnau, bwâu, staciau, traethau a thafodau ac arweddion ar raddfa llai i gynnwys pyllau glan môr, rhiciau tonnau a phlanau haenu.</p> <p>Sut mae ffactorau yn effeithio ar newid tirffurf mewn tirweddau afonol ac arfordirol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Daeareg, i gynnwys natur leol creigiau (<i>er enghraifft, morlinau cydgordiol ac anghytgordiol</i>). • Hinsawdd, i gynnwys ei heffaith ar yr amrywiad tymhorol o ran arllwysiadau a sut mae tywydd eithafol yn effeithio ar gyfraddau newid tirffurf (<i>er enghraifft, newid catastroffig yn ystod storm benodol yn ystod y gaeaf</i>). • Gweithgaredd dynol, i gynnwys trosolwg o ganlyniadau bwriadol ac anfwriadol ymyriadau dynol (<i>er enghraifft, erydu cyflymach drwy darfu ar batrymau drifft y glannau</i>).

Syniad Allweddol 1.3: Dalgylchoedd afonydd yng Nghymru a'r DU

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
1.3.1 Pa brosesau ffisegol sy'n effeithio ar storfeydd a llifoedd o fewn dalgylchoedd afonydd yn y DU?	Llifoedd a storfeydd dŵr mewn dalgylchoedd afonydd. Y cydberthnasoedd rhwng prosesau dalgylchoedd afonydd i gynnwys ataliad, ymdreiddiad, trwyllif a llif trostir.
1.3.2 Pam mae afonydd yn y DU yn gorlifo?	Y ffyrdd y mae ffactorau ffisegol, i gynnwys hinsawdd, llystyfiant a daeareg, yn effeithio ar arllwysiad a phatrymedd blyneddol. Ffactorau dynol (<i>er enghraifft, newid y defnydd o dir</i>) sy'n arwain at afonydd yn gorlifo. Dadansoddi hydrograffiau. Astudiaeth fanwl o achosion ac effeithiau llifogydd mewn o leiaf un lleoliad yng Nghymru neu rywle arall yn y DU.
1.3.3 Beth yw'r dulliau rheoli cyfredol a'r dulliau rheoli a ragwelir ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â llifogydd yn y DU?	Strategaethau ar gyfer rheoli sianeli afonydd a dalgylchoedd afonydd yn y DU. Rhaid ymdrin â pheirianeg 'galed' a 'meddal' ac ardaloedd defnydd tir. Safbwyntiau croes o ran rheoli afonydd/gorlifdiroedd a datblygu gorlifdiroedd (<i>er enghraifft, adeiladu cartrefi newydd</i>) a all arwain at ddyfodol daearyddol amgen yn y DU.

Thema Graidd 2: CYSYLLTIADAU GWLEDIG-TREFOL

Fel rhan o'r thema hon, rhaid i ddysgwyr astudio **dwy** ddinas fawr, un yn y DU a'r llall naill ai mewn gwlad incwm isel (LIC) **neu** wlad newydd ei diwydianeiddio (NIC)*. Rhaid gosod y ddwy astudiaeth o ddinas o fewn cyd-destun rhanbarth y ddinas honno, y wlad a'r byd ehangach.

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o achos ac effaith; cylchredau a llifoedd; dyfodol daearyddol; lle/natur unigryw; proses a newid; graddfa; cylchoedd dylanwad; a chymunedau cynaliadwy wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 2.1: Y continwmm trefol-gwledig yng Nghymru

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
2.1.1 Sut mae ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru wedi'u cysylltu?	Trosolwg o leoliad ardaloedd sylweddol o'r boblogaeth yng Nghymru. Cysyniadau'r continwmm trefol-gwledig a'r cylch dylanwad mewn perthynas ag adwerthu a gwasanaethau trefol (<i>er enghraifft, darparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig</i>)
2.1.2 Sut mae ardaloedd gwledig yng Nghymru yn newid?	Y broses o wrthdrefoli. Y rhesymau dros y broses hon a'i heffaith ar aneddiadau gwledig. Patrymau cymudo a materion trafndiaeth sy'n deillio o wrthdrefoli yng Nghymru neu rhwng Cymru a Lloegr. Effeithiau cylchoedd dylanwad trefol a newidiadau technolegol ar y broses o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig (<i>er enghraifft, cau swyddfeydd post a banciau mewn pentrefi</i>). Achosion ac effeithiau tlodi gwledig ac amddifadedd a'r broses o ddiblogi ardaloedd gwledig anghysbell. Strategaethau ar gyfer creu cymunedau gwledig cynaliadwy.

Syniad Allweddol 2.2: Newidiadau poblogaeth a threfol yn y DU

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
2.2.1 Beth yw achosion a chanlyniadau newidiadau yn y boblogaeth yn y DU?	Ffactorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol sy'n effeithio ar newidiadau yn y boblogaeth yng Nghymru a'r DU ehangach, i gynnwys cyfraddau geni newidiol, poblogaeth sy'n heneiddio, a mudo i mewn i'r DU ac yn y DU. Y sialensiau economaidd, iechyd a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yn y DU. Yr angen am dai newydd.
2.2.2 Beth yw rhai o'r sialensiau cyfoes sy'n wynebu trefi a dinasoedd y DU?	Sialensiau creu cymunedau cynaliadwy trefol yn nhrefi/dinasoedd y DU. Cysyniad olwyn Egan. Rhaid ymdrin â materion mewn un cyd-destun tir llwyd (<i>er enghraifft, gwaith adnewyddu trefol mewn ardal glandwr dinas fel Bae Caerdydd</i>) ac un cyd-destun tir glas.
2.2.3 Sut a pham mae adwerthu yn newid yn y DU?	Ffactorau economaidd, diwylliannol a thechnolegol sydd wedi arwain at newidiadau mewn adwerthu. Costau a buddion datblygu canolfannau siopa ar gyrion trefi a siopa ar y rhyngwyd. Astudiaeth o newidiadau ar y stryd fawr mewn trefi/dinasoedd yn y DU.

Syniad Allweddol 2.3: Materion trefol mewn dinasoedd global cyferbyniol

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
2.3.1 Beth yw patrymau trefoli yn fyd-eang?	Trosolwg o batrymau trefoli yn fyd-eang i gynnwys dosbarthiad dinasoedd global* o ran gofod a sut mae'r patrwm hwn wedi newid dros amser.
2.3.2 Beth yw canlyniadau trefoli mewn dwy ddinas global?	<p>Ffyrdd o fyw mewn dwy ddinas global. Rhaid i un ddinas fod wedi'i lleoli mewn gwlad incwm isel (LIC) neu mewn gwlad newydd ei diwydianeiddio (NIC). Rhaid i'r ddinas arall fod wedi'i lleoli mewn gwlad incwm uchel (HIC). Ar gyfer pob dinas, rhaid i'r dysgwyr osod eu hastudiaethau yng nghyd-destun rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang y ddinas honno.</p> <p>Ar gyfer pob dinas:</p> <p>(a) Y rhesymau dros ei thwf i gynnwys newidiadau naturiol yn y boblogaeth ac achosion o fudo. Sut mae mudo yn cysylltu'r ddinas â'i rhanbarth dinas ac â rhannau eraill o'r byd. Ffactorau gwthio a thynnu ar gyfer mudo gwledig-trefol ar raddfa ranbarthol/cenedlaethol a rhesymau dros achosion hanesyddol neu ddiweddar o fudo rhyngwladol.</p> <p>(b) Ffyrdd o fyw i gynnwys patrymau cymdeithasol a diwylliannol ym mhob dinas. Cyfraniad yr economi anffurfiol yn y ddinas yn y wlad incwm isel (LIC) / newydd ei diwydianeiddio (NIC).</p> <p>(c) Sialensiau trefol cyfredol i gynnwys lleihau tlodi/amddifadedd a darparu tai.</p>
2.3.3 Sut mae dinasoedd global yn cysylltu â'i gilydd?	Cysyniadau dinasoedd global a globaleiddio. Sut mae trafndiaeth yn cysylltu dinasoedd global (er enghraifft, cyfnewidfeydd trafndiaeth, porthladdoedd a meysydd awyr), masnach/twristiaeth a chyfryngau/cyfathrebu. Sut mae pob un o'r dinasoedd (a astudiwyd yn 2.3.2) yn cysylltu â gweddill y byd.

*Gweler Atodiad B, ar dudalen 35, am restr o ddinasoedd global, gwledydd newydd eu diwydianeiddio a gwledydd incwm isel y gellir eu hastudio.

Adran B: Opsiynau

Dylai dysgwyr astudio **un** o'r themâu hyn.

Thema 3: TIRWEDDAU A PHERYGLON TECTONIG

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ddyfodol daearyddol; rhyng-gysylltedd (rhwng amgylcheddau dynol a ffisegol); cyd-ddibyniaeth (globaleiddio); proses a newid; graddfa; a chynaliadwyedd wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 3.1: Prosesau a thirffurfiau tectonig

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
3.1.1 Sut mae prosesau tectonig yn cydweithio i greu arweddion tirffurfiau ar wahanol raddfeydd?	<p>Trosolwg o ddosbarthiad byd-eang gweithgaredd tectonig a'r cysylltiad rhyngddo â symudiadau platiau a ffiniau. Prosesau ar raddfa fawr (darfudiad, tansugno a dargyfeiriad) ar ymylon adeiladol a distrywiol. Arweddion ar raddfa fawr sy'n deillio o hynny, i gynnwys dyffrynnoedd hollt a ffosydd cefnforol. Y cysyniad o fannau poeth folcanig (<i>er enghraifft, Hawaii</i>).</p> <p>Prosesau sy'n arwain at arweddion tirweddol folcanig nodedig: Arweddion ar raddfa fwy i gynnwys llosgfynyddoedd tarian, stratolosgynyddoedd, callor. Arweddion ar raddfa lai i gynnwys conau lludw, tiwbiau lafa a geiserau.</p>

Syniad Allweddol 3.2: Lleoedd sy'n agored i niwed a lleihau peryglon

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
3.2.1 Beth yw effeithiau prosesau tectonig?	<p>Ffactorau ffisegol a dynol sy'n golygu bod arweddion yn fwy agored i niwed o ganlyniad i beryglon tectonig: Ffactorau ffisegol i gynnwys maint echdoriadau folcanig a daeargrynfeydd. Arweddion a graddfa llifoedd pyroclastig, llifoedd lafa, laharau a chymylau lludw. Effeithiau daeargrynfeydd, tsunami a gweithgaredd folcanig ar iechyd, isadeiledd a'r economi.</p> <p>Ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n gallu golygu bod cymunedau mewn ardaloedd tectonig mewn gwledydd ar lefelau gwahanol a ddatblygiad economaidd yn fwy agored i niwed.</p> <p>Rhaid ymdrin ag o leiaf un enghraifft benodedig o berygl folcanig ac un daeargryn.</p>
3.2.2 Sut mae'n bosibl lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheryglon tectonig?	<p>Sut mae'n bosibl defnyddio gwaith monitro, mapio peryglon, technoleg adeiladau newydd a gwell trefniadau ar gyfer cynllunio mewn argyfwng i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â daeargrynfeydd, tsunami ac echdoriadau folcanig.</p>

Thema 4: PERYGLON ARFORDIROL A'U RHEOLAETH

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ddyfodol daearyddol; rhyng-gysylltedd (rhwng amgylcheddau dynol a ffisegol); lliniaru risg; proses a newid; graddfa; a chynaliadwyedd wrth ystyried y thema hon.

Syniad Allweddol 4.1: Morlinau sy'n agored i niwed

Cwestiynau Allweddol	Manylion yr astudiaeth
4.1.1 Pam mae rhai cymunedau arfordirol yn agored i erydu a llifogydd?	Ffactorau ffisegol a dynol sy'n golygu bod ardaloedd yn fwy agored i niwed o ganlyniad i erydu arfordirol a llifogydd arfordirol. Sut mae digwyddiadau tywydd eithafol a newid hinsawdd yn golygu bod ardaloedd yn fwy agored i niwed o lifogydd arfordirol. Ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n gallu golygu bod cymunedau arfordirol mewn gwledydd sydd wedi datblygu'n economaidd i wahanol raddau yn fwy agored i niwed.

Syniad Allweddol 4.2: Rheoli peryglon arfordirol

Cwestiynau Allweddol	Manylion yr astudiaeth
4.2.1 Sut mae morlinau yn cael eu rheoli?	<p>Sut y gellir defnyddio strategaethau peirianeg 'galed' a 'meddal' i leihau'r risg o erydu a llifogydd ar y raddfa leol. Safbwyntiau croes o ran opsiynau 'cynnal y sefyllfa bresennol / cadw'r llinell' a 'dulliau encilio rheoledig' mewn perthynas ag un morlin isel sy'n wynebu risg o ganlyniad i godiad yn lefel y môr (<i>er enghraifft, Gogledd Norfolk neu Essex</i>).</p> <p>Y cysyniad o gost a budd. Y rhesymau cymdeithasol ac economaidd dros amddiffyn rhai morlinau a gadael i forlinau eraill fod.</p> <p>Rôl Cynlluniau Rheoli Traethlin yn y DU. Yr angen i gydlynu trefniadau rheoli arfordirol ar raddfa ranbarthol/genedlaethol. Sut y gellir defnyddio gwaith monitro (<i>er enghraifft, rhagolygon gan y Swyddfa Dywydd</i>), mapio peryglon a threfniadau ar gyfer cynllunio mewn argyfwng i leihau'r risg o lifogydd arfordirol.</p>
4.2.2 Beth yw'r ffordd fwyaf cynaliadwy o reoli morlinau o ystyried bod lefelau'r môr yn codi?	<p>Y rhesymau pam y bydd rhai cymunedau arfordirol yn fwy agored i niwed yn y dyfodol a pham mae rhai morlinau yn wynebu mwy o risg nag eraill.</p> <p>Y sialensiau penodol mae Ynys-wladwriaethau Bach Datblygol yn eu hwynebu wrth i lefelau'r môr godi.</p> <p>Sut a pham y gall cynnydd yn lefel y môr arwain at ffoaduriaid amgylcheddol yn y dyfodol. Sut mae llywodraethau mewn gwledydd ar lefelau gwahanol o ddatblygiad economaidd yn ymateb i'r broblem hon.</p>

2.2 Uned 2

Materion Amgylcheddol a Datblygiad

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

40% o'r cymhwyster

80 marc (ynghyd â 3 marc am gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg)

Mae Uned 2 yn cynnwys dwy thema graidd a dau opsiwn. Dylai dysgwyr astudio'r **ddwy** thema graidd ac **un** o'r opsiynau.

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys a nodir yn y syniadau allweddol, y cwestiynau ymholiad a manylion yr astudiaeth y manylir arno ar dudalennau 13-18 o'r fanyleb. *Nodir yr enghreifftiau (mewn llythrennau italig) er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac awgrymu amrediad, ac nid ydynt yn orfodol.*

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Mae Atodiad A ar dudalennau 33-34 o'r fanyleb yn nodi pa mor fanwl y dylid ymdrin â'r sgiliau hyn.

Adran A: Themâu craidd

Dylai dysgwyr astudio'r **ddwy** thema hyn.

Thema Graidd 5: TYWYDD, HINSAWDD AC ECOSYSTEMAU

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o achos ac effaith; cylchredau a llifoedd; dyfodol daearyddol; anghydraddoldeb; rhyng-gysylltedd (rhwng amgylcheddau dynol a ffisegol); lle; proses a newid; a graddfa wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 5.1: Newid hinsawdd yn ystod y cyfnod Cwaternaidd

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
5.1.1 Beth yw'r dystiolaeth dros newid hinsawdd?	Trosolwg o newid hinsawdd i gynnwys natur gylchol cyfnodau rhewlifol a rhyngrewlifol. Dilysrwydd amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer newid hinsawdd (<i>er enghraifft, cylchoedd coed, disgrifiadau hanesyddol, cofnodion o'r tymheredd</i>) y mae'n rhaid iddi gynnwys creiddiau ia a lefelau CO ² .
5.1.2 Beth sy'n achosi newid hinsawdd?	Llifoedd a storfeydd yn y gylchred carbon a'r prosesau sy'n cysylltu'r storfeydd hyn. Effaith tŷ gwydr. Sut mae gweithgaredd dynol yn effeithio ar y gylchred carbon. Oeri byd-eang oherwydd gweithgaredd folcanig fel un o achosion naturiol newid hinsawdd yn ystod y cyfnod Cwaternaidd.

Syniad Allweddol 5.2: Patrymau a phrosesau'r tywydd

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
5.2.1 Beth yw achosion a chanlyniadau dau berygl sy'n gysylltiedig â'r tywydd?	<p>Trosolwg o gylchrediad byd-eang yr atmosffêr. Sut mae cylchrediad byd-eang yn creu ardaloedd o wasgedd isel ac uchel. Sut mae'r gwahanol systemau gwasgedd hyn yn arwain at beryglon sy'n gysylltiedig â'r tywydd.</p> <p>Gwasgedd isel: Dosbarthiad byd-eang ardaloedd y mae corwyntoedd/seiclonaau yn effeithio arnynt. Eu patrymau newidiol dros amser i gynnwys tymoroldeb blynyddol a newidiadau tymor hirach o ran amllder a maint. Astudiaeth fanwl o un perygl gwasgedd isel penodedig o leiaf, i gynnwys ei achosion a'r canlyniadau i bobl, yr amgylchedd a'r economi.</p> <p>Gwasgedd uchel: Dosbarthiad byd-eang ardaloedd y mae tonnau gwres a sychder yn effeithio arnynt. Eu patrymau newidiol dros amser i gynnwys newidiadau tymor hirach o ran amllder a maint (<i>er enghraifft, patrymau newidiol o sychder yn Awstralia neu wledydd Sahel dros y 50-100 mlynedd diwethaf</i>). Astudiaeth fanwl o un perygl gwasgedd uchel penodedig o leiaf, i gynnwys ei achosion a'r canlyniadau i bobl, yr amgylchedd a'r economi.</p>
5.2.2 Pa ffactorau sy'n creu amrywiadau yn y tywydd a'r hinsawdd ar wahanol raddfeydd yn y DU?	<p>Y gwahaniaeth rhwng tywydd a hinsawdd. Effaith lledred, uchder a cheryntau cefnforoedd ar dymheredd a glawiad yn y DU. Tywydd sy'n gysylltiedig â phatrymau o wasgedd isel ac uchel yn y DU. Y cysyniadau o hinsoddau morol a chyfandirol fel y maent yn effeithio ar y DU. Ffactorau sy'n dylanwadu ar ficrohinsawdd.</p>

Syniad Allweddol 5.3: Prosesau a rhyngweithiadau o fewn ecosystemau

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
5.3.1 Ble ceir ecosystemau ar raddfa fawr?	<p>Trosolwg o leoliad a dosbarthiad byd-eang ecosystemau ar raddfa fawr (biomau). Arweddion ecosystemau ar raddfa fawr i gynnwys y gydberthynas rhwng patrymau hinsawdd byd-eang a'u dosbarthiad.</p>
5.3.2 Beth yw prosesau allweddol ecosystemau ar wahanol raddfeydd?	<p>Lleoliad ac arweddion arbennig ecosystem y goedwig law drofannol a'i hinsawdd ac un biom arall cyferbyniol (<i>er enghraifft, safana neu dwndra neu riffiau cwrel trofannol</i>). Y prosesau a'r cydberthnasau sy'n cysylltu rhannau byw (bodau dynol, planhigion ac anifeiliaid) a rhannau anfyw (priddoedd, dŵr a hinsawdd) yn y ddwy ecosystem hyn ar wahanol raddfeydd: Prosesau ar raddfa leol i gynnwys cylchredau maetholion a gweoedd bwyd.</p> <p>Graddfeydd rhanbarthol/byd-eang i gynnwys cylchredau dŵr a chylchredau carbon.</p> <p>Ffyrdd y mae ecosystemau yn darparu gwasanaethau allweddol i bobl (<i>er enghraifft, rheoli'r gylchred dŵr a lliniaru llifogydd</i>).</p> <p>Arweddion allweddol un ecosystem ar raddfa fach yng Nghymru (<i>er enghraifft, twyn tywod, parc trefol, gwrych</i>). Sut mae gweithgaredd dynol wedi effeithio ar fioamrywiaeth, llifoedd lleol, cylchredau a phrosesau yn yr ecosystem hon.</p>

Syniad Allweddol 5.4: Gweithgaredd dynol a phrosesau ecosystemau

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
5.4.1 Sut mae pobl yn defnyddio ecosystemau ac amgylcheddau?	<p>Trosolwg o sut mae pobl yn defnyddio, yn addasu ac yn newid ecosystemau cyferbyniol ar gyfer bwyd, egni a dŵr.</p> <p>Sut mae pobl yn defnyddio un amgylchedd i gynhyrchu egni (<i>er enghraifft, sut y gellir defnyddio amgylcheddau arfordirol Cymru ar gyfer egni gwynt a baredau llanw</i>). Effeithiau posibl cynhyrchu egni ar yr amgylchedd hwn a'i ecosystemau a'i fioamrywiaeth.</p>
5.4.2 Sut mae gweithgareddau dynol yn addasu prosesau a rhyngweithiadau o fewn ecosystemau?	<p>Sut y gall gweithgaredd dynol, i gynnwys cynhyrchu bwyd, effeithio ar ecosystem y goedwig law drofannol ac un bioamrywiaeth cyferbyniol arall, ar amrywiaeth o raddfeydd, gan ddefnyddio'r un a ddewiswyd ar gyfer 5.3.2 bob amser. Sut mae'r gweithgareddau hyn yn addasu cylchredau a llifoedd ar raddfeydd gwahanol:</p> <p>Graddfa leol: sut a pham mae colli cynefinoedd naturiol yn arwain at newidiadau i gylchredau maetholion, adeiledd priddoedd ac erydiad pridd.</p> <p>Graddfa ranbarthol: sut y gall systemau uncnwd a ffermio dwys effeithio ar gylchredau dŵr a hinsawdd ranbarthol.</p> <p>Sut y gall y newidiadau hyn effeithio ar fioamrywiaeth (<i>er enghraifft, lleihad o ran amrywiaeth, cynefinoedd, creu poblogaethau anghysbell a difodiant rhywogaethau yn lleol/byd-eang</i>).</p>
5.4.3 Sut mae'n bosibl rheoli ecosystemau mewn ffordd gynaliadwy?	<p>Strategaethau amgylcheddol cynaliadwy i reoli cynefin a bioamrywiaeth mewn coedwigoedd glaw trofannol ac un ecosystem cyferbyniol gan ddefnyddio'r un a ddewiswyd ar gyfer 5.3.2 bob amser. Ymdriniaeth i gynnwys parthau o fewn Parciau Cenedlaethol a chreu coridorau bywyd gwyllt.</p>

Thema Graidd 6: MATERION DATBLYGIAD AC ADNODDAU

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o achos ac effaith; cylchredau a llifoedd; dyfodol daearyddol; anghydraddoldeb; cyd-ddibyniaeth (globaleiddio); lle/natur unigryw; proses a newid; graddfa; cylochoedd dylanwad; a chynaliadwyedd wrth ystyried y thema hon.

Syniad Allweddol 6.1: Mesur anghydraddolebau byd-eang

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
6.1.1 Sut mae datblygiad economaidd yn cael ei fesur a beth yw patrymau byd-eang cyfoes?	Sut mae cyfoeth cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio (<i>er enghraifft, IGC, CMC</i>) fel mesur datblygiad cymharol a pham mae cyfyngiadau yn gysylltiedig â'r dystiolaeth hon o ddatblygiad. Y cysyniad o gontinwrm datblygiad economaidd. Y defnydd o dystiolaeth o ddatblygiad economaidd i edrych ar natur ddeinamig y 'bwloch datblygiad'.

Syniad Allweddol 6.2: Achosion a chanlyniadau datblygiad anghyson ar raddfa fyd-eang ac o fewn un wlad incwm isel (LIC) ac un wlad newydd ei diwydianeiddio (NIC).

Gweler Atodiad B, ar dudalen 35, am restr o wledydd incwm isel a gwledydd newydd eu diwydianeiddio y mae'n rhaid dewis **dwy** wlad o'u plith i'w hastudio.

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
6.2.1 Beth yw achosion a chanlyniadau datblygiad anghyson ar raddfa fyd-eang?	<p>Yn y syniad allweddol hwn, rhaid i ddysgwyr osod eu hastudiaethau o fewn cyd-destun dwy wlad sy'n datblygu'n economaidd y dylid eu dewis o'r rhestr o wledydd incwm isel a gwledydd newydd eu diwydianeiddio ar dudalen 35.</p> <p>Sut mae cydberthnasau geowleidyddol, i gynnwys masnach fyd-eang, wedi arwain at batrymau datblygiad anghyson. Rôl mewforion, allforion a blociau masnach mewn masnach ryngwladol. Canlyniadau polisïau diffynnaeth, yn eu plith tollau, cymorthdaliadau a chwotâu ar ddatblygiad mewn un wlad incwm isel ac un wlad newydd ei diwydianeiddio.</p> <p>Natur newidiol diwydiant byd-eang a'r ffordd y mae'n manteisio ar batrymau datblygiad anghyson i gynnwys:</p> <p>(a) Rhesymau pam mae cwmnïau amlwladol yn lleoli ffatrioedd mewn sawl gwlad wahanol. Canlyniadau globaleiddio ar ddatblygiad anghyson i gynnwys manteision ac anfanteision cwmnïau amlwladol a'u heffeithiau ar batrymau gwaith a datblygiad yng Nghymru (neu'r DU ehangach) ac mewn un wlad newydd ei diwydianeiddio (dylid dewis yr un wlad â'r wlad newydd ei diwydianeiddio a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth masnach yn Syniad Allweddol 6.2).</p> <p>(b) Cyfraniad cynyddol twristiaeth i'r economi fyd-eang o ran yr economi a chyflogaeth. Astudiaeth fanwl o effeithiau cadarnhaol a negyddol twristiaeth ar batrymau datblygiad anghyson, cyflogaeth, yr amgylchedd, diwylliant ac isadeiledd mewn un wlad incwm isel neu un wlad newydd ei diwydianeiddio (dylid dewis yr un wlad â'r wlad a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth masnach yn Syniad Allweddol 6.2). Effaith bosibl twf twristiaeth ar strwythurau cyflogaeth (<i>er enghraifft, gorddibyniaeth ar dwristiaeth</i>). Cysyniadau twristiaeth clofan economi anffurfiol a'u canlyniadau ar gyfer datblygiad.</p>
6.2.2 Beth yw'r ymatebion i ddatblygiad anghyson ar raddfa fyd-eang?	Sut y gall cymorth rhyngwladol gan sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol helpu i leihau anghydraddoldeb mewn un wlad incwm isel neu un wlad newydd ei diwydianeiddio. Cysyniadau cymorth mewn argyfwng, cymorth datblygiad tymor hir a thargedau datblygiad. Y cysyniad o fasnach deg a'i buddion.

Syniad Allweddol 6.3: Adnoddau dŵr a'u rheolaeth

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
6.3.1 Sut a pham mae'r galw am ddŵr yn newid?	Trosolwg o dueddiadau byd-eang o'r gorffennol (<i>er enghraifft, dros y 50-100 mlynedd diwethaf</i>) a'r presennol o ran y defnydd o ddŵr. Cysyniadau olion troed dŵr a sicrwydd dŵr. Y cysylltiadau rhwng twf poblogaeth, newidiadau amaethyddol, twf prynwriaeth a'r galw cynyddol am ddŵr.
6.3.2 A yw adnoddau dŵr yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy?	<p>Sut a pham mae pobl yn rheoli cyflenwadau dŵr drwy adeiladu cronfeydd dŵr ar gyfer cyflenwadau dŵr/dyfrhau a phrojectau pŵer trydan dŵr (HEP), cynlluniau trosglwyddo dŵr ac echdynnu dŵr daear.</p> <p>Canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rheoli dŵr ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rheoli adnoddau dŵr ar raddfa ryngwladol, lle mae afonydd yn croesi ffiniau gwledydd gwahanol 2. Project rheoli dŵr ar raddfa fach lle mae lefelau priodol o dechnoleg yn cael eu defnyddio (<i>er enghraifft, cynaeafu dŵr glaw</i>). 3. Un lleoliad lle mae gorechdynnu dŵr daear yn broblem a lle mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddyfodol daearyddol amgen.

Syniad Allweddol 6.4: Datblygu economaidd rhanbarthol

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
6.4.1 Beth yw achosion a chanlyniadau patrymau datblygiad economaidd rhanbarthol mewn un wlad sy'n datblygu'n economaidd?	Patrymau anghydraddoldeb cymdeithasol/economaidd rhanbarthol mewn un wlad incwm isel* neu un wlad newydd ei diwydianeiddio* (dylid dewis yr un wlad ag un o'r ddwy wlad a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth masnach yn Syniad Allweddol 6.2). Ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, gwleidyddol ac amgylcheddol sy'n cyfrannu at y patrwm hwn. Canlyniadau cymdeithasol ac economaidd yr anghydraddoldebau rhanbarthol hyn.
6.4.2 Beth yw achosion a chanlyniadau patrymau datblygiad economaidd rhanbarthol yn y DU?	Y cysyniad o raniad rhwng y gogledd a'r de yn y DU. Achosion patrymau cyfoeth/tlodi o fewn rhanbarthau safonol y DU ac yng Nghymru i gynnwys ffactorau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol. Canlyniadau cymdeithasol ac economaidd anghydraddoldebau rhanbarthol.
6.4.3 Sut mae'n bosibl lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol yn y DU?	Sut mae buddsoddi yn creu twf mewn rhanbarthau difreintiedig. Y cysyniad o luosyddion cadarnhaol a negyddol. Sut mae'n bosibl defnyddio polisïau cenedlaethol i leihau anghydraddoldeb rhanbarthol yn y DU ac yng Nghymru i gynnwys buddsoddiad sylweddol mewn isadeiledd (<i>er enghraifft, HS2</i>).

*Gweler Atodiad B, ar dudalen 35, am restr o wledydd newydd eu diwydianeiddio a gwledydd incwm isel y gellir eu hastudio.

Adran B: Opsiynau

Dylai dysgwyr astudio **un** o'r themâu hyn.

Thema 7: MATERION DATBLYGIAD CYMDEITHASOL

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ddyfodol daearyddol; anghydraddoldeb; cyd-ddibyniaeth (globaleiddio); proses a newid wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 7.1: Mesur datblygiad cymdeithasol

Cwestiynau Allweddol	Manylion yr astudiaeth
7.1.1 Sut mae datblygiad cymdeithasol yn cael ei fesur?	Defnyddio rhywedd ac iechyd fel mesurau cymharol ar gyfer datblygiad cymdeithasol. Y cysyniad bod continwwm datblygiad cymdeithasol. Y defnydd o dystiolaeth o ddatblygiad cymdeithasol i ystyried natur ddeinamig y 'bwlch datblygiad' (er enghraifft, newidiadau diweddar i gyfraddau geni a disgwyliad oes).

Syniad Allweddol 7.2: Materion cyfoes

Cwestiynau Allweddol	Manylion yr astudiaeth
7.2.1 Pa sialensiau sy'n wynebu datblygiad cymdeithasol yn Affrica is-Sahara a De Asia?	<p>Ffactorau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n dylanwadu ar gyfraddau genedigaethau a chyfraddau marwolaethau newidiol yn Ne Asia ac Affrica is-Sahara. Sut mae pyramidau poblogaeth yn adlewyrchu strwythur y boblogaeth yn y rhanbarthau hyn o'r byd.</p> <p>Achosion a chanlyniadau llafur plant. Y sialensiau sy'n gysylltiedig ag addysg gynradd ac yn enwedig addysg i ferched yn Affrica is-Sahara* a De Asia*. Sut yr ymdrinnir â'r materion hyn ar y raddfa leol mewn un wlad yn Affrica is-Sahara/Asia a hefyd ar y raddfa fyd-eang (er enghraifft, defnyddio targedau rhyngwladol wedi'u pennu gan y Cenhedloedd Unedig).</p> <p>Y rhesymau dros symudiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches rhyngwladol o Affrica is-Sahara/Asia. Sut yr ymdrinnir â'r mater hwn gan lywodraethau cenedlaethol a chytundebau rhyngwladol (er enghraifft, mynd i'r afael â phroblemau mudo yn ardal Môr y Canoldir).</p>
7.2.2 Beth yw'r materion gofal iechyd yn Affrica is-Sahara?	Y rhesymau dros gyfraddau o farwolaethau uchel babanod yn Affrica is-Sahara. Y sialensiau sy'n gysylltiedig â HIV a malaria yn Affrica is-Sahara. Sut yr ymdrinnir â'r materion hyn ar y raddfa leol mewn un wlad yn Affrica is-Sahara ac ar y raddfa fyd-eang (er enghraifft, defnyddio targedau rhyngwladol wedi'u pennu gan y Cenhedloedd Unedig). Y cysyniadau o ddatblygiad o'r gwaelod i fyny ac o'r top i lawr. Sut mae cynnydd yn cael ei fesur a pha gynnydd sy'n cael ei wneud.

***Gweler Atodiad C, ar dudalen 35, am restr o wledydd yn Affrica is-Sahara a De Asia y gellir eu hastudio**

Thema 8: SIALENSIAU AMGYLCHEDDOL

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith cysyniadol sy'n ategu manylion yr astudiaeth a nodir isod. Dylid rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ddyfodol daearyddol; rhyng-gysylltedd (rhwng amgylcheddau dynol a ffisegol); cyd-ddibyniaeth (globaleiddio); proses a newid; a chynaliadwyedd wrth edrych ar y thema hon.

Syniad Allweddol 8.1: Prynwriaeth a'i heffaith ar yr amgylchedd

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
8.1.1 Beth yw effeithiau dewis cynyddol i ddefnyddwyr ar yr amgylchedd byd-eang?	<p>Y cysyniad o ôl troed ecolegol. Y cysylltiadau rhwng cyd-ddibyniaeth fyd-eang gynyddol, prynwriaeth a dinistrio ecosystemau mewn coedwigoedd glaw trofannol ac un biom cyferbyniol arall (<i>er enghraifft, y galw am olew palmwydd neu fiodanwydd ac effaith y broses o'u datblygu mewn ecosystemau trofannol</i>).</p> <p>Sut mae prynwriaeth yn effeithio ar yr amgylcheddau drwy newidiadau i amaeth-fusnes a chludiant (<i>fel milltiroedd bwyd, gwerthu ffrwythau a llysiau y tu allan i'w tymhorau arferol</i>). Sut mae prynwriaeth yn effeithio ar yr amgylchedd drwy waredu gwastraff, gan gynnwys effaith e-wastraff ar bobl a'r amgylchedd.</p>
8.1.2 Sut mae newid hinsawdd yn gallu effeithio ar bobl a'r amgylchedd a sut mae'n bosibl defnyddio technoleg a newid ffordd o fyw pobl er mwyn lleihau'r effeithiau hyn?	<p>Effeithiau tymor byr a thymor hir newid hinsawdd ar bobl, yr economi a'r amgylchedd. Rhaid ymdrin ag effeithiau yn y DU ac mewn un amgylchedd cyferbyniol (<i>er enghraifft, yr Arctig neu Ynys-wladwriaethau Bach</i>). Dyfodol daearyddol amgen ar gyfer y lleoliadau hyn (<i>er enghraifft, newidiadau o ran amllder digwyddiadau tywydd eithafol a phatrymau tymhorol newidiol</i>). Rôl unigolion a'r llywodraeth wrth fabwysiadu technolegau newydd a ffyrdd newydd o fyw er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ymatebion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i newid hinsawdd.</p>

Syniad Allweddol 8.2: Rheoli ecosystemau

Cwestiynau allweddol	Manylion yr astudiaeth
8.2.1 Sut mae'n bosibl rheoli ac adfer amgylcheddau a chynefinoedd naturiol sydd wedi'u difrodi?	<p>Strategaethau amgylcheddol i reoli cynefinoedd a bioamrywiaeth mewn coedwigoedd glaw trofannol ac un ecosystem gyferbyniol i gynnwys ardaloedd o fewn Parciau Cenedlaethol, creu coridorau bywyd gwyllt a chyfnewidiadau dyled-am-natur.</p> <p>Strategaethau i adfer cynefinoedd a ddifrodwyd gan weithgarwch dynol i gynnwys adfer gwlyptiroedd.</p> <p>Sut mae'n bosibl rheoli twristiaeth er mwyn lleihau ei heffeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac adnoddau dŵr dau amgylchedd cyferbyniol i gynnwys morlin trofannol/riffiau cwrel.</p> <p>Sut mae'n bosibl sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Cysyniadau ecodwristiaeth, twristiaeth foesegol a theithio cyfrifol.</p>

2.3 Uned 3

Ymholiad Gwaith Maes

Asesiadau di-arholiad

20% o'r cymhwyster

40 marc (ynghyd â 4 marc am gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg)

Yn Uned 3 mae gofyn i'r dysgwr ddarparu adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys tystiolaeth o'i ddealltwriaeth o'r broses ymholi a'i allu annibynnol i brosesu/cyflwyno data a chwblhau gwaith ysgrifennu estynedig. Rhaid ysgrifennu'r adroddiad mewn ymateb i gwestiynau penodol wedi'u gosod gan CBAC. Bydd y cwestiynau'n amrywio ym mhob cylchred. Byddant ar gael i'w llwytho i lawr o ardal ddiogel gwefan CBAC yn ystod mis Tachwedd y flwyddyn cyn blwyddyn y dyfarniad. Gall dysgwyr ddefnyddio portffolio o dystiolaeth gwaith maes, a gasglwyd yn ystod eu cwrs TGAU, wrth ymateb i'r cwestiynau hyn. Rhaid ysgrifennu'r adroddiadau o dan **lefel uchel** o reolaeth. Am ragor o fanylion am y rheolaethau hyn, gweler tudalennau 29-31 o'r fanyleb. Caiff yr adroddiadau eu marcio gan CBAC.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr adroddiad hwn, disgwylir i ddysgwyr gynnal **dau** ymholiad gwaith maes y tu allan i'r ystafell ddosbarth a thir yr ysgol, gyda'r ddau mewn amgylchedd **cyferbyniol**:

- Mewn un amgylchedd, dylid canolbwyntio ar fethodoleg gwaith maes. Dewisir y dull gweithredu gan CBAC o blith y rheini a restrir yn Nhabl A ar dudalen 25.
- Dylid cynnal yr ail brofiad gwaith maes mewn amgylchedd **cyferbyniol**. Rhaid i'r ymholiad gwaith maes hwn fod yn seiliedig ar fframwaith cysyniadol daearyddiaeth. Dewisir y dull gweithredu gan CBAC o blith y rheini a restrir yn Nhabl B ar dudalennau 26-27.

Bydd athrawon yn cael gwybod o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw pa ddau ddull gweithredu y dylai pob canolfan eu dilyn yn ystod unrhyw flwyddyn benodedig. Cynlluniwyd y dulliau gweithredu hyn i roi amrywiaeth eang o ddewisiadau i ganolfannau o ran amgylcheddau ar gyfer cynnal gwaith maes. Dylent hefyd olygu y gall canolfannau ddefnyddio lleoliadau gwaith maes cyfarwydd y maen nhw'n gwybod eu bod yn ddiogel. **Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer Uned 3 yn dangos cylchred lle mae 'trawsluniau' yn cael eu defnyddio ar gyfer y fethodoleg a ddewisir o Dabl A ac 'anghydraddoldebau' ar gyfer y cysyniad daearyddol a ddewisir o Dabl B.**

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ymgymryd â phob un o **chwe** cham y broses ymholi wrth gynnal gwaith maes. Disgrifir camau'r broses ymholi yn llawn ar dudalen 23. Argymhellir y dylai dysgwyr dreulio tua 18 awr o oriau dysgu dan arweiniad yn paratoi ar gyfer eu profiad gwaith maes ac yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r gwaith maes hwnnw yn ogystal â'r amser a dreulir yn cynnal y gwaith maes. Dylent gadw tystiolaeth o'u profiadau gwaith maes mewn portffolio, wedi'i chasglu dros gyfnod eu cwrs TGAU. Dylid cynnal gweithgareddau gwaith maes o dan lefelau rheolaeth cyfyngedig, gweler tudalennau 29-13 i gael rhagor o fanylion am y rheolaethau hyn. Gall dysgwyr ddefnyddio'r dystiolaeth yn eu portffolio wrth ymdrin â'r cwestiynau a osodwyd gan CBAC yn eu hadroddiad gwaith maes.

Gallai'r dysgwyr baratoi ar gyfer eu hymchwiliad gwaith maes drwy gael cyfleoedd i wneud y canlynol:

- gofyn cwestiynau daearyddol
- ymchwilio i fethodolegau gwaith maes
- edrych ar strategaethau samplu
- dylunio taflenni casglu data.

Gallai'r dysgwyr atgyfnerthu eu dealltwriaeth o ymholiad gwaith maes drwy gael cyfleoedd i wneud y canlynol:

- prosesu data
- cyflwyno eu canfyddiadau
- dadansoddi patrymau a thueddiadau
- dod i gasgliadau
- ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth/gwerthuso eu gwaith maes.

Sgiliau ymholi gwaith maes fydd yn cael eu harholi yn Uned 3

Nodir yr enghreifftiau (mewn llythrennau italig) er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac awgrymu amrediad, ac nid ydynt yn orfodol.

Y broses ymholi	Dylai unigolion ddysgu sut i wneud y canlynol
<p>1.1 Beth yw'r broses ar gyfer ymholi daearyddol?</p> <p>1.2 Sut mae tystiolaeth yn cael ei chasglu?</p> <p>1.3 Sut mae'n bosibl prosesu a chyflwyno tystiolaeth?</p> <p>1.4 Sut mae'n bosibl dadansoddi tystiolaeth a sut mae patrymau a thuaddiadau y ceir tystiolaeth ohonynt drwy gynnal gwaith maes yn berthnasol i wybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol ehangach?</p> <p>1.5 Pa gasgliadau mae'n bosibl dod iddynt o ymholiadau gwaith maes?</p> <p>1.6 Pa dechnegau gwerthuso y dylid eu cymhwyso at y broses ymholi?</p>	<p>1.1 Gofyn cwestiynau am brosesau/cysyniadau daearyddol sy'n cynnwys cwestiynau am batrymau gofodol a phrosesau/newidiadau daearyddol. Profi rhagdybiaethau.</p> <p>1.2 Dylunio taflenni casglu data gwaith maes. Dewis lleoliadau penodol lle mae'n bosibl casglu data. Pennu grwpiau rheoli. Cyfiawnhau maint y sampl a'r dechneg samplu, a dylid cynnwys dull samplu gan ddefnyddio technegau ar hap, systematig, oportiwnistaidd a/neu haenedig. Defnyddio cyfarpar gwaith maes i gael canlyniadau cywir a dibynadwy (<i>er enghraifft, defnyddio clinomedr neu gwadradau</i>).</p> <p>Casglu data gan ddefnyddio technegau meintiol ac ansoddol. Dylai technegau meintiol gynnwys y rheini sy'n mesur y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llif (<i>er enghraifft, arllwysiad, ymdreiddiad, traffig</i>) • graddfa (<i>er enghraifft, lled yr afon, maint y cerigos, graddiant</i>) • patrwm gofodol (<i>er enghraifft, defnydd tir adwerthu, didoli gwaddod</i>) • newid tymhorol/amseryddol (<i>er enghraifft, tymheredd, glawiad, gwasgedd</i>). <p>Dylai technegau ansoddol gynnwys defnyddio holiaduron, technegau deubegwn ac anodi ffotograffau/brasluniau.</p> <p>Defnyddio ffynonellau tystiolaeth eilaidd i gynnwys delweddau lloeren, ffotograffau o'r awyr a ffotograffau lletraws, cronfeydd data mawr (<i>er enghraifft, Ystadegau Gwladol</i>) a GIS (<i>er enghraifft, Asiantaeth yr Amgylchedd</i>).</p> <p>1.3 Prosesu tystiolaeth i gynnwys cyfrifo canrannau a'r cymedr. Cyflwyno tystiolaeth i gynnwys mapiau, graffiau a diagramau. Cyfeiriodi ffynonellau data eilaidd yn gywir. I gael manylion am sgiliau rhifiadol ac ystadegol, yn eu plith technegau cynrychioli graffigol a chartograffig penodol, gweler Atodiad A, tudalennau 33-34.</p> <p>1.4 Nodi, dadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau. Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a phrosesau daearyddol eang at dystiolaeth benodol a gasglwyd yn ystod yr ymholiad.</p> <p>1.5 Cyfodod canfyddiadau er mwyn dod i gasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i nod cychwynnol yr ymholiad. Gwerthfawrogi y gall daearyddiaeth fod yn 'flêr' h.y. nad yw gwaith maes bob amser yn cyfateb i ganlyniadau nodweddiadol neu ganlyniadau a ragfynegyd.</p> <p>1.6 Nodi cyfyngiadau tystiolaeth ddaearyddol: manwl gywirdeb, dibynadwyedd a thuedd. Myfyrio'n feirniadol ar gryfderau a chyfyngiadau data sylfaenol a data eilaidd, y dulliau a ddefnyddiwyd, y casgliadau a wnaed a'r wybodaeth a gafwyd. Gwerthfawrogi y gall fod o fantasis i randdeiliaid (<i>er enghraifft, pan fydd ffynonellau data sylfaenol neu eilaidd yn dibynnu ar farn</i>).</p>

Dulliau gwaith maes

Bydd Uned 3 yn asesu gwahanol dulliau gwaith maes ym mhob cyfres arholiadau. Er mwyn rhoi profiad gwaith maes perthnasol i ddysgwyr, bydd CBAC yn darparu un dull methodolegol ac un dull ar wahân yn seiliedig ar un fframwaith cysyniadol ar gyfer gwaith maes o leiaf ddwy flynedd cyn pob asesiad. Cyhoeddir y rhestr dulliau lawn yn Nhabl A ar dudalen 25 a Thabl B ar dudalennau 26-27 o'r fanyleb. Gall canolfannau gynnal pob ymchwiliad gwaith maes mewn unrhyw amgylchedd ond fe'u hatgoffir y dylai'r dysgwyr gael profiad o weithio mewn amgylcheddau **cyferbyniol** y tu allan i'r ystafell ddosbarth a thir yr ysgol h.y. os bydd amgylchedd arfordirol yn cael ei ddewis o Dabl A, yna dylid dewis amgylchedd cyferbyniol o Dabl B wrth gynnal yr ail ymholiad gwaith maes.

Dylid rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio prosesau ffisegol a dynol a'r rhyngweithiadau rhyngddynt yn ystod eu profiadau gwaith maes. Dylent ymwneud â'r broses o gasglu data ffisegol a dynol sylfaenol (ond nid oes yn rhaid ymdrin â'r holl ofynion hyn ym mhob darn o waith maes).

Cyn pob cyfres arholiadau, o leiaf ddwy flynedd cyn yr asesiad, bydd CBAC yn cyhoeddi **dau** dull y dylai canolfannau eu dilyn yn ystod gwaith maes:

- Dewisir **un** o'r dulliau yn Nhabl A. Asesir y dull hwn a fydd yn ymwneud â methodoleg yn Rhan A o'r arholiad. Gall canolfannau ddewis enghraifft ac amgylchedd priodol ar gyfer eu hymholiad gwaith maes o golofn 2 o Dabl A.
- Dewisir **un** o'r dulliau yn Nhabl B. Asesir dealltwriaeth y dysgwyr o sut y gellir ymchwilio i'r cysyniad hwn yn ystod ymholiad gwaith maes yn Rhan B o'r arholiad.

Rhaid i bob canolfan ddarparu datganiad gwaith maes i CBAC sy'n nodi manylion y gwaith maes a wnaed gan y dysgwyr o'r ganolfan yn ystod pob cylchred asesu. Bydd methiant i ddarparu datganiad gwaith maes yn cael ei ystyried yn achos o gamymddwyn a/neu gamweinyddu gan CBAC. Gall canolfannau gwblhau eu datganiad gwaith maes drwy lenwi ffurflen a fydd ar gael i'w llwytho i lawr o dudalen pwnc TGAU Daearyddiaeth ar wefan CBAC. Mae rhagor o fanylion am drefniadau gwaith maes wedi'u rhoi yn Adran 3.2 ar dudalennau 29-31.

Tabl A: Methodolegau gwaith maes

Bydd CBAC yn dewis **un** dull methodolegol bob blwyddyn o'r tabl isod. Mae'r ail golofn, yn y tabl isod, yn awgrymu amrywiaeth o enghreifftiau o ymholiadau gwaith maes wedi'u gosod mewn amgylcheddau cyferbyniol y gall canolfannau eu defnyddio. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain.

Dull methodolegol	Enghreifftiau posibl o ymchwiliadau gwaith maes mewn amgylcheddau cyferbyniol
Defnyddio trawsluniau	<i>Defnyddio trawslun ar draws nodwedd er mwyn:</i>
	Asesu ansawdd bywyd neu ansawdd amgylcheddol ar draws ardal drefol
	Dadansoddi microhinsawdd ar draws tref fawr neu i fyny llethr
	Darganfod patrymau llif a dyddodi ar draws sianel afon
	Dadansoddi patrymau llystyfiant ar draws system twyni tywod neu drwy goetir
	Dadansoddi proffiliau llethrau a didoli gwaddod i fyny proffil traeth
Newid dros amser	<i>Cymharu data cynradd gyda ffynonellau eilaidd er mwyn dadansoddi'r canlynol:</i>
	Patrymau newidiol adwerthu, gan gymharu patrymau adwerthu presennol â data hanesyddol o flwyddyn flaenorol
	Tywydd newidiol, gan gymharu data a gasglwyd dros sawl diwrnod â data a gasglwyd ar gyfer yr un cyfnod mewn blwyddyn flaenorol
	Tirffurfiau afonol/arfordirol newidiol yn seiliedig ar gymharu tystiolaeth bresennol â thystiolaeth hanesyddol o fapiau/ffotograffau
	Defnydd tir newidiol dros amser mewn amgylchedd trefol/gwledig
Arolygon ansoddol	<i>Dadansoddi canfyddiadau o'r canlynol:</i>
	Gwerth tirweddau afonol neu arfordirol penodol
	Ansawdd amgylcheddol amgylcheddau trefol/gwledig
	Astudiaethau canfyddiad, er enghraifft, am y perygl o lifogydd neu newid hinsawdd
	Cymharu canfyddiadau ymwelwyr/pobl leol am safle pot mêl
Llifoedd daearyddol	<i>Dadansoddi llifoedd a phatrymau symud:</i>
	Cyfraddau ymdreiddio mewn amrywiol briddoedd neu gyfraddau ataliad mewn amrywiol fathau o lystyfiant
	Dadansoddi symudiadau cymudwyr
	Cyfraddau arllwysiad o gymharu â glawiad neu arolwg hydredol o newidiadau i lawr yr afon mewn afon
	Llifoedd traffig neu gerddwyr, er enghraifft, cysylltu llifoedd cerddwyr mewn amgylchedd adwerthu â'r ddarpariaeth barcio mewn ardal drefol neu nodi'r llwybr gorau ar gyfer llwybr beicio
	Dadansoddi maint/siâp gwaddod o ganlyniad i ddrifft y glannau ar hyd morlin

Tabl B: Dulliau ymholi gwaith maes gan ddefnyddio fframweithiau cysyniadol

Bydd CBAC yn dewis **un** fframwaith cysyniadol bob blwyddyn o'r tabl isod. Mae'r ail golofn, yn y tabl isod, yn awgrymu amrywiaeth o enghreifftiau o ymholiadau gwaith maes wedi'u gosod mewn amgylcheddau cyferbyniol y gall canolfannau eu defnyddio. Fe'u darperir at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Fframwaith cysyniadol	Enghreifftiau posibl o ymchwiliadau gwaith maes mewn amgylcheddau cyferbyniol
<p>Lle Cymhwyso dealltwriaeth o natur unigryw/hunaniaeth.</p>	<p>Cymharu a chyferbynnu arweddion dau leoliad penodol er mwyn nodi natur unigryw lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> • priodweddau arweddion arfordirol mewn dau leoliad • priodweddau arweddion afon mewn dau leoliad • priodweddau ecosystem mewn dau leoliad • dau bentref neu ddau amgylchedd trefol • ansawdd bywyd mewn dwy ardal gyfagos.
<p>Cylch dylanwad Cymhwyso dealltwriaeth o gylch dylanwad/dalgylch a sut mae'n effeithio ar leoedd.</p>	<p>Nodi graddau'r cylch dylanwad/dalgylch a dadansoddi effeithiau cadarnhaol neu negyddol hyn ar le (lleoedd):</p> <ul style="list-style-type: none"> • cylch dylanwad ardaloedd trefol mwy a'u heffeithiau ar y cefnwlod o'u hamgylch. • ffactorau allanol cadarnhaol a negyddol digwyddiad mawr (er enghraifft, Sioe Sirol/gŵyl ddiwylliannol) neu leoliad chwaraeon • cylch dylanwad safle pot mêl a'i effaith (effeithiau), er enghraifft, dadansoddi pwysau ymwelwyr ar hyd llwybr troed • cylch dylanwad arwedd benodol ar y dirwedd a'i heffaith (effeithiau) • dalgylch afon a'i effaith ar y risg posibl o lifogydd.
<p>Cylchredau a llifoedd Cymhwyso dealltwriaeth o newidiadau a symudiadau mewn perthynas â lle.</p>	<p>Nodi patrymau symud (mewn cyd-destun dynol neu ffisegol) a'r rhesymau dros y symudiadau hyn neu eu heffeithiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arolwg mudo sy'n canolbwyntio ar ffactorau gwthio-tynnu a'u heffeithiau naill ai mewn lleoliadau trefol neu wledig • llifoedd yn ystod y dydd mewn amgylcheddau trefol a'r effeithiau, er enghraifft, ar systemau trafndiaeth • astudiaeth o lifoedd cymudwyr rhwng lleoliad trefol a lleoliad gwledig cyfagos • cymharu llifoedd afon ar gamau cyferbyniol o'r afon a/neu dros amser • nodi newidiadau tymhorol mewn ecosystem leol.
<p>Lliniaru risg Cymhwyso dealltwriaeth o ganfyddiad am beryglon/risgiau a dadansoddi strategaethau rheoli/camau gweithredu ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Nodi natur risgiau ac ymatebion dynol iddynt mewn un lleoliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • erydu arfordirol/risg o lifogydd a strategaethau rheoli • y risg o lifogydd a strategaethau rheoli afonydd • defnydd tir trefol/gwledig a'i effaith ar ymdreiddiad/ataliad/risg o lifogydd • canfyddiadau am newid hinsawdd ac ymatebion lleol posibl • risg amgylcheddol a'i rheolaeth, er enghraifft, lleoliad fferm wynt newydd neu ymchwiliad i ansawdd aer mewn ardal drefol.

Fframwaith cysyniadol	Enghreifftiau posibl o ymchwiliadau gwaith maes mewn amgylcheddau cyferbyniol
<p>Cynaliadwyedd Cymhwyso dealltwriaeth o gymunedau cynaliadwy.</p>	<p>Asesu i ba raddau mae'n bosibl gwneud cymuned yn fwy cynaliadwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effeithiau cynllun cerddwyr yn unig neu gynllun parcio a theithio • effeithiolrwydd cymuned sy'n bodoli neu un arfaethedig (trefol neu wledig) i fodloni gofynion olwyn Egan • dewis ffyrdd mwy cynaliadwy o reoli'r daith i'r ysgol, er enghraifft, y llwybr gorau ar gyfer llwybr beicio newydd i'r ysgol • gwerthuso strategaethau rheoli arfordirol neu reoli llifogydd cynaliadwy • gwerthuso defnyddiau cynaliadwy posibl ar gyfer safle tir llwyd.
<p>Anghydraddoldeb Cymhwyso dealltwriaeth o anghydraddoldeb a chysyniadau cysylltiedig fel amddifadedd neu gydraddoldeb mynediad at wasanaethau.</p>	<p>Dadansoddi patrymau anghydraddoldeb:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae ffactorau allanol cadarnhaol a negyddol yn effeithio ar safon byw mewn amgylcheddau trefol neu wledig • cymharu mynediad at wasanaethau mewn cymunedau gwledig a threfol yng nghefnwlad un ardal drefol fawr • gwerthuso ansawdd bywyd ar gyfer grŵp cymdeithasol-economaidd penodedig (er enghraifft, teuluoedd ifanc) mewn un gymuned • asesu ansawdd yr amgylchedd trefol a'i effaith ar brisiau tai ar draws trawslun trefol • gwerthuso llwyddiant cynllun adfywio trefol wrth leihau amddifadedd.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr:

AA1.1

Dangos gwybodaeth am leoedd, amgylcheddau a phrosesau ar amrywiaeth o raddfeydd.

AA1.2

Dangos dealltwriaeth o leoedd, amgylcheddau, cysyniadau a rhyngberthnasau ar amrywiaeth o raddfeydd.

AA2

Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a materion daearyddol a llunio barn.

AA3

Dewis, addasu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau a thechnegau i ymchwilio i gwestiynau a materion ac i gyfleu canfyddiadau.

Yn y tabl isod dangosir pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

	AA1.1	AA1.2	AA2	AA3	Cyffredinol
Uned 1	7.5%	10%	12.5%	10%	40%
Uned 2	7.5%	10%	12.5%	10%	40%
Uned 3	0	5%	10%	5%	20%
Pwysoli cyffredinol	15%	25%	35%	25%	100%

Mae'r ffigurau mewn *llythrennau italig* yn nodi bod y pwysoli hwnnw wedi'i gadw ar gyfer asesu gwaith maes.

Ar gyfer pob cyfres:

- bydd y pwysoli ar gyfer asesu sgiliau mathemategol ac ystadegol yn 10% o leiaf
- Bydd **ysgrifennu'n gywir** yn cael ei asesu mewn cwestiynau penodedig lle gofynnir am waith ysgrifennu estynedig. Mae ysgrifennu'n gywir yn ystyried defnydd yr ymgeisydd o iaith arbenigol. Mae hefyd yn ystyried cywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg yr ymgeisydd. Cyfanswm y pwysoli am ysgrifennu'n gywir fydd 5% o gyfanswm yr holl farciau sydd ar gael ar gyfer amcanion asesu AA1 i AA3 h.y. cyfanswm o 10 marc.

3.2 Trefniadau ar gyfer asesiadau di-arholiad

Dylid defnyddio'r lefelau rheolaeth canlynol ar gyfer Uned 3, yr ymholiad gwaith maes.

Cyflawni tasgau

Mae cyflawni tasgau yn cynnwys dau gam.

Cam 1 Creu portffolio gwaith maes: dynodir lefel rheolaeth **gyfyngedig**.

Cam 2 Ysgrifennu adroddiad: dynodir lefel rheolaeth **uchel**.

Cam 1 Creu portffolio gwaith maes

Mae'r cam hwn yn cynnwys gwaith paratoi cyn y gwaith maes; y profiadau gwaith maes; casglu data sylfaenol; gwaith ymchwil eilaidd; prosesu a chyflwyno data; dod i gasgliadau; a gwerthuso'r profiadau gwaith maes. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai dysgwyr greu portffolio gwaith maes.

Mae gan Gam 1 lefel rheolaeth **gyfyngedig**.

1. Rhaid i'r ganolfan oruchwylio pob ymholiad gwaith maes. Ni ddylid annog dysgwyr i ymweld â'r safle gwaith maes yn annibynnol er mwyn cynnal gwaith ymchwil ychwanegol.
2. Rhaid cwblhau Cam 1 erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y Dyfarniad. Ar yr adeg hon, rhaid casglu portffolios gwaith maes y dysgwyr a'u cadw mewn amgylchedd diogel. Dim ond ar yr adeg y byddant yn ysgrifennu'r adroddiadau y dylid dychwelyd y portffolios i'r dysgwyr yn ystod Cam 2.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau amser ar Gam 1. Gellir ymgymryd â'r cam hwn ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs TGAU ond rhaid ei gwblhau erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y Dyfarniad. Er enghraifft, yn y cylchred cyntaf, rhaid cwblhau Cam 1 erbyn 31 Hydref 2017 cyn y Dyfarniad yn 2018.

Dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ymgymryd â phob un o **chwe** cham y broses ymholi wrth greu eu portffolio gwaith maes. Disgrifir camau'r broses ymholi yn llawn ar dudalen 21 o'r fanyleb. Mae CBAC yn argymhell y dylid cynnwys yr ymholiad gwaith maes o fewn cynllun gwaith sy'n darparu cyd-destun cyn pob ymholiad gwaith maes.

Gall dysgwyr ymgymryd â Cham 1 mewn grwpiau. Er enghraifft, gall dysgwyr weithio mewn grwpiau wrth ddylunio elfennau cyffredin holiaduron (gellir hefyd ychwanegu cwestiynau ychwanegol, annibynnol) ac argymhellir y dylent weithio mewn grwpiau wrth gasglu data sylfaenol yn y maes. Gall dysgwyr gydweithio wrth goladu'r data a gasglwyd gan grwpiau eraill o ddysgwyr wrth gasglu data sylfaenol neu eilaidd.

Cam 2 Ysgrifennu adroddiad

Bydd CBAC yn rhyddhau'r cwestiynau y mae'n rhaid i'r adroddiad gwaith maes fod yn seiliedig arnynt ar 1 Tachwedd yn ystod y flwyddyn cyn y Dyfarniad. Byddant ar gael i'w llwytho i lawr o ardal ddiogel gwefan CBAC. Cynhelir Cam 2 o 1 Tachwedd hyd 31 Rhagfyr yn ystod y flwyddyn cyn y Dyfarniad. Er enghraifft, yn y cylch cyntaf, cynhelir Cam 2 o 1 Tachwedd 2017 hyd 31 Rhagfyr 2017 cyn y Dyfarniad yn 2018.

Rhaid i ddysgwyr ymgymryd â Cham 2 o dan lefel rheolaeth **uchel**.

Ni chaniateir cydweithio. Rhaid i'r ymgeiswyr weithio'n **annibynnol** yn ystod y cam hwn. Dylent allu defnyddio'r portffolio gwaith a grëwyd ganddynt yn ystod Cam 1. Rhaid iddynt brosesu a chyflwyno eu canfyddiadau yn annibynnol. Gall ymgeiswyr gwblhau'r gwaith mewn llawysgrifen neu drwy ddefnyddio TGCh.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod pob ymgeisydd yn ymateb i'r cwestiynau gwaith maes o dan oruchwyliaeth **ffurfiol uniongyrchol**. Yn ystod y cam hwn o'r asesiadau di-arholiad, **ni** all athrawon gyfathrebu â'r ymgeiswyr er mwyn cynnig awgrymiadau neu atebion i gwestiynau daearyddol neu gwestiynau gwaith maes. Gall athrawon helpu o ran materion technegol, er enghraifft, defnyddio TGCh neu faint o amser sy'n weddill.

Yr uchafswm amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer ysgrifennu adroddiad yw **dwy awr a 30 munud**. Gall hyn ddigwydd mewn un sesiwn neu gael ei rannu'n gyfnodau byrrach o amser. Mae'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer Uned 3 wedi'u rhannu'n ddwy adran er mwyn ei gwneud hi'n haws cynnal dwy sesiwn rheolaeth uchel ar wahân. Ar ôl ysgrifennu'r adroddiadau, rhaid eu casglu a'u storio mewn amgylchedd diogel yn y ganolfan.

Gellir rhoi amser ychwanegol i ymgeiswyr â gofynion dysgu penodol, fel y diffinnir yn *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*.

Marcio tasgau

Bydd adroddiadau'r ymgeiswyr yn cael eu marcio gan CBAC. Rhaid cyflwyno'r adroddiadau i'r arholwr yn ystod wythnos gyntaf mis Ionawr yn ystod blwyddyn y Dyfarniad.

Nid oes angen i ganolfannau gyflwyno'r portffolio gwaith maes i CBAC i'w farcio. Fodd bynnag, bydd hawl gan ymgeiswyr i dynnu hyd at **bum** tudalen A4 o'u portffolio a chyflwyno'r tudalennau hyn i ategu eu hadroddiad **os byddant yn dymuno gwneud hynny**. Er enghraifft, efallai y bydd ymgeisydd yn awyddus i ddefnyddio'r tudalennau hyn fel tystiolaeth ei fod wedi ystyried cyfyngiadau ei waith yn gywir. Os cyflwynir y tudalennau hyn, **ni fyddant yn cael** eu marcio'n uniongyrchol gan CBAC; byddant yn cael eu defnyddio i egluro datganiadau a wnaed gan yr ymgeisydd yn ei adroddiad.

Dilysu

Bydd yn ofynnol i athrawon gadarnhau yn ysgrifenedig, hyd eithaf eu gwybodaeth, mai gwaith yr ymgeisydd yw'r holl waith a gyflwynwyd i'w farcio, gan nodi unrhyw eithriadau, ac na chafodd yr ymgeisydd unrhyw gymorth i gwblhau'r gwaith hwnnw. Gwneir hyn drwy lofnodi taflen datganiad y ganolfan. Dylid ei chyflwyno ar yr un pryd â'r datganiad gwaith maes a'i hanfon at yr arholwr.

Y datganiad gwaith maes

Rhaid i bob canolfan ddarparu datganiad gwaith maes i CBAC sy'n nodi manylion y gwaith maes a wnaed gan y dysgwyr o'r ganolfan yn ystod pob cylchred asesu. Bydd methiant i ddarparu datganiad gwaith maes yn cael ei ystyried yn achos o gamymddwyn a/neu gamweinyddu gan CBAC.

Gall canolfannau gwblhau eu datganiad gwaith maes drwy lenwi ffurflen a fydd ar gael i'w llwytho i lawr o dudalen pwnc TGAU Daearyddiaeth ar wefan CBAC. Bydd canolfannau yn gallu defnyddio'r ffurflen i:

- (a) gadarnhau bod pob dysgwr wedi cael cyfleoedd i ymgymryd â gwaith maes daearyddol **o leiaf ddwywaith** ac mewn perthynas ag **o leiaf ddau amgylchedd cyferbyniol**, a
- (b) mewn perthynas â phob un o'r cyfleoedd hynny:
 - i. y dyddiad y'i darparwyd
 - ii. y lleoliad lle y'i darparwyd
 - iii. yr amgylchedd yr oedd yn berthnasol iddo
 - iv. nifer y dysgwyr a gymerodd ran, a
 - v. disgrifiad o sut mae'r tasgau a gyflawnwyd gan y dysgwyr yn bodloni'r gofynion ar gyfer gwaith maes daearyddol a nodir ar dudalennau 19-25 o'r fanyleb.

Rhaid cyflwyno'r datganiad gwaith maes i CBAC erbyn 15 Mai yn y flwyddyn y bydd ymgeiswyr yn derbyn eu Dyfarniad.

Cyflwyno Asesiadau Di-arholiad

Dylid cyflwyno'r canlynol i'r arholwr:

- taflen datganiad y ganolfan
- y datganiad gwaith maes
- adroddiadau'r ymgeiswyr.

Ni ddylid cyflwyno portffolios gwaith maes yr ymgeiswyr. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr atodi hyd at **bum** tudalen A4 o'u portffolio i'w hadroddiad. Ni chaiff y tudalennau hyn eu marcio gan CBAC ond byddant yn darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer yr arholwr.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw'r cymhwyster hwn lle y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ddiwedd y cwrs. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres Mai/Mehefin bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2018.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Rhaid i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran arholiad yn yr un gyfres.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll cydran Asesu Di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo marc yr Aseiad Di-arholiad blaenorol), yna'r marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'n is na'r marc o'r ymgais flaenorol.

Os ardystiodd ymgeisydd ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar sy'n cael ei drosglwyddo, heb ystyried a yw'r marc hwnnw'n uwch neu'n is (oni bai bod y marc yn absennol).

Mae'r cod cofrestru'n cael ei ddangos isod.

Teitl y cymhwyster	Codau Cofrestru	
	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg
TGAU Daearyddiaeth CBAC	3110QS	3110CS

Mae'r rhifyn cyfredol o'n *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yng Nghymru yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

ATODIAD A

Defnyddio mathemateg ac ystadegau mewn daearyddiaeth

Mae'r rhestr isod yn amlinellu amrediad a graddau'r technegau mathemategol ac ystadegol sy'n ofynnol gan TGAU Daearyddiaeth CBAC. *Nodir yr enghreifftiau (mewn llythrennau italig) er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac awgrymu amrediad, ac nid ydynt yn orfodol.*

Mathau o sgiliau y mae'n rhaid eu datblygu	Y technegau penodol sydd eu hangen
<p>Sgiliau rhifiadol ac ystadegol</p> <p>1 Sgiliau rhifiadol</p> <p>1.1 Dangos dealltwriaeth o rif, arwynebedd a graddfa a'r cydberthnasau meintiol rhwng unedau.</p> <p>1.2 Dylunio taflenni casglu data gwaith maes a chasglu data gan ddangos dealltwriaeth o fanwl gywirdeb, maint y sampl a gweithdrefnau, grwpiau rheoli a dibynadwyedd.</p> <p>1.3 Deall a defnyddio cyfran a chymhareb, maint ac amllder yn gywir.</p> <p>1.4 Dod i gasgliadau hyddysg o ddata rhifiadol.</p> <p>2 Sgiliau ystadegol</p> <p>2.1 Defnyddio mesurau priodol ar gyfer canolduedd, gwasgariad ac amllder cronus.</p> <p>2.2 Cyfrifo'r cynnydd neu'r gostyngiad canrannol a deall y defnydd o ganraddau.</p> <p>2.3 Disgrifio cydberthnasau o fewn data deunewidyn.</p> <p>2.4 Nodi gwendidau wrth gyflwyno data ystadegol detholus.</p>	<p><i>Cyfrifo'r pellter o fapiau gan ddefnyddio'r llinell raddfa a'r ardal amcangyfrifedig. Defnyddio gosodiadau meintiol wrth ddisgrifio'r cydberthnasau sy'n cael eu datgelu gan dablau data neu graffiau.</i></p> <p>Samplu gan ddefnyddio technegau ar hap, systematig, oportiwnistaidd a/neu haenog. Defnyddio cyfarpar gwaith maes i gael canlyniadau cywir a dibynadwy (<i>er enghraifft, defnyddio clinometr neu gwadratau</i>). Gwneud llinfapiau a brasluniau maes i gyflwyno a dehongli data.</p> <p><i>Er enghraifft, 1:200 llifogydd; a graddfeydd logarithmig fel graddfa Richter, yn nhrefn maint.</i></p> <p><i>Defnyddio tablau data i ddod i gasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth am batrymau gofodol neu tymhorol/amseryddol (er enghraifft, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).</i></p> <p>Canolrif, cymedr, ystod, chwartelau ac amrediad rhyngchwartel, modd a dosbarth moddol.</p> <p><i>Er enghraifft, cyfrifo'r cynnydd/gostyngiad canrannol yn y boblogaeth o graff llinell neu dabl data. Llunio histogram o wasgariad normal/sgiw a'i ddefnyddio i gyfrifo canraddau.</i></p> <p>Braslunio tueddlinau drwy blotiau gwasgariad; lluniadu llinellau ffit orau wedi'u hamcangyfrif. Dehongli tystiolaeth er mwyn llunio rhafynegiadau. Rhyngosod ac allosod tueddiadau ar graff llinell.</p> <p>Nodi cyfyngiadau (<i>er enghraifft, wrth ddehongli graff gwasgariad</i>).</p>

Mathau o sgiliau y mae'n rhaid eu datblygu	Y technegau penodol sydd eu hangen
<p>Sgiliau cyflwyno a phrosesu</p> <p>3.1 Sgiliau cartograffig 3.1 Defnyddio a deall graddiant, cyfuchliniau a phwyntiau uchder ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau isolinell eraill.</p> <p>3.2 Dehongli trawstoriadau a thrawsluniau.</p> <p>3.3 Defnyddio a deall cyfernodau, graddfa a phellter.</p> <p>3.4 Disgrifio a dehongli data daearyddol-ododol a gyflwynir mewn fframwaith GIS.</p> <p>4 Sgiliau graffigol</p> <p>4.1 Dewis a llunio graffiau a siartiau priodol i gyflwyno data, gan ddefnyddio graddfeydd priodol.</p> <p>4.2 Dehongli a chael gafael ar wybodaeth o wahanol fathau o graffiau. Dehongli gwahanol graffiau er mwyn nodi patrymau a thueddiadau.</p> <p>4.3 Dehongli pyramidau poblogaeth, mapiau coropleth a mapiau lliflin.</p>	<p>Dehongli a dadansoddi mapiau atlas ar wahanol raddfeydd, mapiau topolegol, mapiau Arolwg Ordnans ar raddfeydd o 1:50,000 a 1:25,000, mapiau isolinell (<i>er enghraifft, siartiau tywydd, siartiau bathymetrig cefnforoedd</i>), mapiau â symbolau cyfrannol, siartiau tywydd (synoptig).</p> <p>Dehongli trawstoriadau (<i>er enghraifft, sy'n dangos tirwedd (relief)</i>) a thrawsluniau (<i>er enghraifft, drwy ardaloedd twyn tywod neu ar draws llwybr troed sydd wedi erydu</i>).</p> <p>Rhoi cyfeirnodau grid 4 a 6 ffigur. Mesur pellter yn fanwl gywir ac amcangyfrif arwynebedd o fapiau (gan gynnwys o fapiau Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:50,000 a 1:25,000).</p> <p>Disgrifio lleoliad, dosraniad a phatrymau gofodol eraill fel mae sgrinlun o GIS yn eu dangos (<i>er enghraifft, Swyddfa Ystadegau Gwladol neu ddadansoddiad o'r perygl o lifogydd gan ddefnyddio'r mapiau rhyngweithiol ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd</i>).</p> <p>Siartiau bar a llinell (i gynnwys siartiau hinsawdd a hydrograffiau), siartiau cylch, pictogramau, histogramau â chyfyngau dosbarth cyfartal, graffiau sêr a rheiddiol, diagramau barcud, graffiau trionglog, diagramau clystyru gwasgariad (<i>dispersion</i>) a graffiau gwasgariad.</p> <p><i>Gweler y technegau a restrir uchod ar gyfer 4.1.</i></p> <p>Dehongli pyramidau poblogaeth (<i>er enghraifft, arddangos ffigurau absoliwt a chanrannol</i>) Mapiau coropleth (<i>er enghraifft, y rheini sy'n dangos amrywiadau o ran datblygiad economaidd</i>) Mapiau lliflin gyda saethau cyfrannol (<i>er enghraifft, gan ddangos llifoedd mudo, twristiaeth neu draffig</i>).</p>

ATODIAD B

Dinasoedd global

Y dinasoedd hynny sy'n flaenllaw yn y system economaidd fyd-eang o gyllid a masnach yw dinasoedd global (neu ddinasoedd byd). Maent yn bodoli felly oherwydd y prosesau rhyngddibyniaeth a globaleiddio sy'n cysylltu'r byd at ei gilydd.

Y 20 dinas uchaf yn 2012 oedd:

Llundain, Efrog Newydd, Hong Kong, Paris, Singapore, Shanghai, Tokyo, Beijing, Sydney, Dubai, Chicago, Mumbai, Milan, Moscow, Sao Paulo, Frankfurt, Toronto, Los Angeles, Madrid, Mexico City.

Mae 14 o ddinasoedd y DU yn ymddangos ar y rhestr o'r 300 uchaf o ddinasoedd global.

Dyma'r dinasoedd yn eu trefn:

Llundain, Manceinion, Birmingham, Caeredin, Bryste, Glasgow, Leeds, Belffast, Southampton, Newcastle, Lerpwl, Caerdydd, Aberdeen, Sheffield.

Rhestr o wledydd newydd eu diwydianeiddio (NIC) a gwledydd incwm isel (LIC) addas

Gwledydd incwm canolig yw gwledydd newydd eu diwydianeiddio (NIC) y mae eu twf economaidd yn digwydd yn gyflymach na gwledydd eraill sy'n datblygu. Nodweddion gwledydd newydd eu diwydianeiddio yw: sector gweithgynhyrchu'r economi yn tyfu'n gymharol gyflym, twf trefol cyflym; cydberthnasoedd masnachu cryf â gwledydd eraill; a chwmnïau amlwladol tramor yn gweithredu yn y wlad.

Dylai dysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r gwledydd newydd eu diwydianeiddio canlynol wrth ddilyn y fanyleb hon: Brasil, China, India, Indonesia, Malaysia, México, Pilipinas, Rwsia, De Affrica, De Korea, Gwlad Thai, Twrci, Viet Nam.

Gwledydd Incwm Isel

Mae Banc y Byd yn diffinio Gwledydd Incwm Isel fel gwledydd sydd ag Incwm Gwladol Gros (GNI) y pen o \$1,045 neu lai yn 2013. Yn 2015, mae 31 o wledydd incwm isel. Mae CBAC yn awgrymu y dylai dysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r gwledydd incwm isel canlynol wrth ddilyn y fanyleb hon:

Afghanistan, Burkina Faso, Cambodia, Ethiopia, Gambia, Haiti, Malawi, Mali, Nepal, Niger, Rwanda, Tanzania, Uganda

ATODIAD C

Rhestr o wledydd addas yn Ne Asia ac Affrica is-Sahara

Gwledydd De Asia

Mae wyth gwlad yn rhan o is-gyfandir De Asia. Dylai dysgwyr ddewis un neu fwy o'r gwledydd canlynol wrth ddilyn y fanyleb hon:

Afghanistan, Bangladesh, Bhutan, India, Maldives, Nepal, Pakistan, Sri Lanka

Gwledydd Affrica is-Sahara

Gellir rhannu Affrica yn fras yn ddwy ran gan ddefnyddio diffeithdir Sahara: Gogledd Affrica ac Affrica is-Sahara. Mae CBAC yn awgrymu y dylai dysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r gwledydd canlynol o Affrica is-Sahara wrth ddilyn y fanyleb hon:

Botswana, Burkina Faso, Cameroon, Cote d'Ivoire, Ethiopia, Gambia, Kenya, Lesotho, Malawi, Mali, Mozambique, Namibia, Niger, Nigeria, Rwanda, Somalia, De Affrica, Tanzania, Uganda, Zimbabwe.